# Lwfans i Fyfyrwyr Anabl

## Cwestiynau Cyffredin

**Adrannau:**

1. Y Broses Ymgeisio
2. Cyfraddau Lwfans i Fyfyrwyr Anabl
3. Ymholiadau am Daliadau



Mehefin

| Cwestiynau | | Yr Ymateb |
|---|---|---|
| **Y Broses Ymgeisio** | | |
| | Pwy sy'n gymwys i wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru? | Gall myfyriwr sy'n derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru. |
| | Sut mae gwneud cais am gyllid Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru? | Bydd angen i chi gysylltu â Gwasanaeth Anabledd eich Prifysgol yn uniongyrchol i wneud cais.<br><br>Byddant yn gyfrifol am anfon yr wybodaeth ofynnol at Wasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr PCGC a fydd yn prosesu'r cais. |
| | Oes angen i mi wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) GIG Cymru bob blwyddyn academaidd? | Nac oes – unwaith y bydd eich cais wedi'i gymeradwyo, bydd eich cefnogaeth DSA ar waith am hyd eich cwrs.<br>Nid oes rhaid i chi wneud cais bob Blwyddyn Academaidd |
| | Rydw i wedi gwneud cais am y Lwfans Myfyrwyr Anabl, fodd bynnag, ni allaf ei weld wedi'i restru ar fy nghyfrif Bwrsariaeth y GIG Ar-lein. | Ni fydd eich Lwfans Myfyrwyr Anabl yn ymddangos ar eich hysbysiad o ddyfarniad Bwrsariaeth GIG Cymru ar-lein<br>gan ei fod yn lwfans ar wahân.<br><br>Unwaith y bydd eich Lwfans Myfyrwyr Anabl wedi'i gymeradwyo a'i brosesu, byddwn yn e-bostio llythyr Dyfarniad Lwfans Myfyrwyr Anabl ar wahân atoch chi a'ch prifysgol gyda chadarnhad o'ch lwfans. |
| **Cyfraddau Lwfans Myfyrwyr Anabl** | | |
| | A yw'r Lwfans Myfyrwyr Anabl yn destun prawf modd? | Nac ydy, nid yw Lwfans Myfyrwyr Anabl yn destun prawf modd. |
| | Faint o Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru alla i ei dderbyn? | Mae 4 elfen i Lwfans Myfyrwyr Anabl, pob un â'i lwfansau uchaf ei hun. Bydd gwasanaethau Dyfryniadau Myfyrwyr yn asesu eich dyfarniad yn seiliedig ar argymhellion eich asesydd anghenion hyd at yr uchafswm<br><br>Lwfans Offer Arbenigol £5,214 Lwfans Cynorthwyydd Anfeddygol £20,725<br>Lwfans Cyffredinol £ 1,741<br>Lwfans Teithio – Wedi'i ysgwyddu'n rhesymol ac yn angenrheidiol oherwydd anabledd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Sut mae Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru yn cael ei gyfrifo? | Os ydych chi'n gymwys i dderbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl, byddwch chi'n cael gwahoddiad i fynd i Asesiad Anghenion. Mae swm y cyllid a ddyfernir ar gyfer DSA yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed yn eich Asesiad Anghenion.<br><br>Caiff pob cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru ei asesu'n unigol yn seiliedig ar anghenion a gofynion y Myfyriwr sy'n gwneud cais. |
| | Pa incwm sy'n cael ei ystyried pan fydd fy Nghais yn cael ei asesu? | Dim – Nid yw Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru yn destun Prawf Modd. |
| **Ymholiadau am Daliadau** | | |
| | Pryd mae'r Lwfans Myfyrwyr Anabl yn cael ei dalu? | Pan fydd eich cais wedi'i brosesu, byddwn yn hysbysu Adran Gyllid eich Prifysgol a fydd yn trefnu taliad neu'n prynu offer ar eich rhan.<br><br>Dim ond myfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd fydd yn derbyn taliad untro i brynu offer gan y cyflenwr a enwebwyd. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr Meddygol a Deintyddol<br><br>Ar gyfer pob Prifysgol arall, bydd Myfyrwyr yn derbyn yr offer a brynwyd gan y Prifysgolion ar eu rhan.<br><br>Cyn y gallwn gyfarwyddo'r Brifysgol i wneud taliad, mae angen i statws eich cyfrif Bwrsariaeth Myfyrwyr Ar-lein ddangos fel un sydd wedi'i dderbyn gan y Brifysgol. Dim ond pan fydd eich cyfrif yn symud i'r statws hwn y gallwn gyfarwyddo'ch Prifysgol i wneud taliad. Mae hyn yn sicrhau bod y myfyriwr wedi cofrestru a'i dderbyn ar y cwrs<br><br>Ar gyfer pob ymholiad ynghylch taliadau Lwfans Myfyrwyr Anabl, cysylltwch ag adran gyllid eich prifysgol yn y lle cyntaf. |
| | Sut mae Lwfans Myfyrwyr Anabl y GIG yn cael ei dalu? | Os oes gennych hawl i daliad untro, eich Prifysgol sy'n gyfrifol am wneud taliadau'n uniongyrchol i chi.<br><br>Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r adran gyllid yn eich prifysgol a fydd yn gallu eich cynghori ymhellach. |
| | A yw swm y Lwfans Myfyrwyr Anabl yn newid dros y flwyddyn? | Nac ydy – Nid yw Bwrsariaeth Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru yn newid yn ystod y flwyddyn. Nid oes angen i chi wneud cais bob blwyddyn academaidd, cyn belled â'ch bod chi'n dilyn y cwrs bydd eich Lwfans Myfyrwyr Anabl yn parhau tan ddiwedd eich cwrs. Os byddwch yn cymryd seibiant o astudio, bydd eich cefnogaeth i Lwfans Myfyrwyr Anabl yn dod i ben ac yn cael ei adfer pan fyddwch yn dychwelyd i astudio. |